# CANLLAW AR GLYSTYRU

Yn unol â chais y Cynghorau Cymuned a Thref, paratowyd y nodyn canllaw hwn gan Gyngor Bro Morgannwg i roi gwybodaeth i'r Cynghorau Cymuned a Thref am glystyru i gynorthwyo â'u prosesau gwneud penderfyniadau; bydd y Cyngor yn gofyn am adborth gan y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg cyn y caiff y canllawiau eu cadarnhau a'u cyhoeddi yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2016.

## 1. Beth yw clystyru?

Mae clystyru yn derm a ddefnyddir yn eang i ddisgrifio'r ffyrdd y gall TCCs gynyddu eu heffeithiolrwydd a diwallu eu hamcanion trwy gydweithio a threfniadau partneriaeth gyda TCCs eraill a / neu grwpiau eraill. I gyflawni manteision dymunol megis economïau o raddfa, gall fod yn fuddiol i TCCs ddarparu gwasanaethau neu swyddogaethau ar lefel leol mewn grŵp (clwstwr).

## 2. Pam clystyru?

Mae clystyru TCCs yn galluogi dull mwy cost effeithiol am nifer o resymau:

- Gall fod y ffordd orau ymlaen i gydlynu trefniadau'n effeithiol lle mae'r rhain yn croesi ardaloedd ffiniol TCC.
- Mae clystyru yn ôl TCCs yn caniatáu rhannu adnoddau.
- Gall manteision economïau o raddfa ddeillio o rannu'r prif swyddogaethau.
- Gostyngiad o ran costau (er enghraifft, yswiriant neu gyd-gomisiynu).
- Cynyddu'r capasiti i gyflawni projectau.
- Gall clystyrau alluogi TCCs mwy i ddarparu gwasanaethau i ardaloedd llai nad yw'r adnoddau ganddynt i reoli darpariaeth gwasanaethau.
- Gall clystyrau alluogi Cynghorau Cymuned i nodi'r math mwyaf addas o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer eu hardal leol.
- Gallant alluogi rhannu ymdrech i gynyddu argaeledd gwasanaethau a / neu sgiliau, er enghraifft gydag un Cyngor Cymuned yn arwain ar rai gwasanaethau tra gall un arall arwain ar eraill.
- Gall clystyrau hefyd weithio â grwpiau cymuned eraill i wella gwasanaethau ymhellach ar lefel leol.
- Creu rhwydwaith o wybodaeth a phrofiad a rennir.
- Gallu agor cyfleoedd cyllido newydd oherwydd gallu gwell i gyflawni projectau mawr neu ennill cyllid gan ffynonellau na fydd o bosibl yn ariannu projectau llywodraeth.

## 3. Esiamplau o Wasanaethau ac Asedau

Ledled Cymru, mae grwpiau cymunedol yn rheoli gwasanaethau ac asedau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r gwasanaethau canlynol wedi'u nodi fel rhai y gellir eu darparu mewn "clwstwr":

- Projectau Ieuenctid
- Adeiladau cymunedol amlbwrpas - e.e. prif neuaddau mawr, cyfleusterau cyfarfod, cyfleusterau hyfforddi
- Llyfrgelloedd
- Toiledau Cyhoeddus
- Torri Glaswellt
- Cynnal a chadw parciau a chaeau chwarae
- Gofal Dydd
- Gofal Plant
- Canolfannau Diwylliannol a Threftadaeth e.e. Pafiliwn Penarth.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Cyngor Bro Morgannwg yn awyddus i drafod datganiadau o ddiddordeb mewn gwasanaethau neu asedau gan TCCs ar ffurf clystyrau neu'n unigol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol, gan gynnwys disgrifiad o'r broses.

## 4. <u>Gyda phwy y dylid creu clwstwr?</u>

Mae aelodaeth Grŵp Clwstwr yn dibynnu ar y diben. Gallai gynnwys TCCs yn ogystal â grwpiau eraill yn y gymuned.

Mae opsiynau y gall clystyrau ddewis rhyngddynt yn cynnwys: Cyngor Tref mwy sy'n darparu gwasanaethau yn y dref ac mewn ardaloedd cymunedol cymdogol gan ddefnyddio eu cyflogeion eu hunain; TCCs sy'n rhedeg asedau cymunedol neu'n darparu gwasanaethau trwy gwmni lles cymunedol a Grŵp Clwstwr sy'n comisiynu isgontractwyr masnachol.

Mae trefniadau clystyru yn dangos amrywiaeth eang o nodweddion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Maint a ffurf - lle mae trefniadau o faint tebyg a lle gellir cael capasiti ac economïau o raddfa trwy rannu swyddogaethau, megis gweinyddu.
- Cyffredinedd - lle mae cysylltiadau cyffredin rhwng Cynghorau Cymuned a / neu Dref yn bodoli, fel arfer oherwydd agosrwydd daearyddol neu les cyffredin.
- Diben – lle mae amcanion yn ymwneud â threfniadau penodol o ran darparu gwasanaeth fel torri glaswellt a lle gellir rhannu costau ac atebolrwydd.
- Trefniant – gall y rhain amrywio o drefniadau anffurfiol syml bach iawn, megis rhannu costau gweinyddol i strwythurau ffurfiol mwy sy'n cynnwys cyd-lywodraethu.

### <u>Gwirfoddolwyr</u>

Er y gallai clystyrau gael eu ffurfio gan TCCs, gall rhai gwasanaethau hefyd gael eu darparu gan wirfoddolwyr. Gellir gwneud hyn ar sail unigol os oes gan un person

ddiddordeb allweddol mewn darparu gwasanaeth penodol neu gallai gael ei wneud gan grŵp o wirfoddolwyr a oruchwylir gan gydlynydd canolog. Bydd angen i TCCs ystyried materion fel, a yw grwpiau gwirfoddolwyr yn gynaliadwy ac a oes angen unrhyw hyfforddiant penodol. Gall y GVS roi gwybodaeth o ran sut y gall grwpiau gwirfoddolwyr gael eu sefydlu a'u cefnogi.

## 5. Prif Egwyddorion Mewn Perthynas â Chlystyru

Mae nifer o egwyddorion allweddol i'w cofio wrth ystyred clystyru:

- Dylid darparu gwasanaeth ar y lefel fwyaf priodol a fydd yn amrywio gyda natur y gwasanaeth a chapasiti a gallu'r darparwr gwasanaeth.
- Dylid diffinio hyblygrwydd yn glir o fewn trefniadau i ganiatáu i ddarparwyr gwasanaeth ymateb i anghenion lleol ac unrhyw newidiadau a allai godi.
- Dylai trefniadau clystyru fod yn glir a sicrhau bod unrhyw atebolrwydd wedi'i ddeall ac yn cael ei drin trwy yswiriant neu drefniadau eraill.
- Bydd TCCs unigol yn parhau i ddiwallu eu goblygiadau statudol presennol unigol.
- Dylai clystyrau gynnig gwerth ychwanegol i weithio'n unigol.
- Dylai'r holl drefniadau clystyru gynnwys strategaethau gadael i ystyried newidiadau sylweddol mewn unrhyw amgylchiadau.

## 6. Sefydlu a Rheoli Clwstwr – Pethau i'w Hystyried

Mae'r canlynol yn rhai o'r agweddau y bydd angen i chi eu hystyried wrth sefydlu a rheoli trefniant clwstwr.

### (i) Gosod Amcanion Clir a Threfniadau Llywodraethu

Mae'n bwysig bod y Grŵp Clwstwr yn cytuno ar amcanion clir a bod ganddo hefyd drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth briodol mewn lle. Dylai'r Grŵp Clwstwr:

- Fod yn glir, o'r cychwyn cyntaf, ynghylch y rhesymau dros glystyru
- Sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer y Grŵp Clwstwr
- Sefydlu model arweinyddiaeth briodol ar gyfer y clwstwr e.e. cadeirydd ac ysgrifennydd unigol, neu gadeirydd cylchredol
- Ystyried y lefel o lywodraethu sy'n ofynnol, a fydd yn dibynnu ar y model a fabwysiedir. Gall hyn olygu Cyfansoddiad neu Femorandwm Dealltwriaeth ffurfiol yn ogystal â Chodau Ymddygiad neu Brotocolau.
- Adeiladu perthynas gref gyda'r Rheolwr / staff y gwasanaeth neu asedau y mae gennych ddiddordeb ynddynt.
- Edrych ar y ddarpariaeth gwasanaeth / adeilad ac ystyried y potensial i ddatblygu'r gwasanaeth neu ddefnyddio'r ased. Nodi angen heb ei fodloni neu fylchau gwasanaeth mewn darpariaeth leol.
- Deall a nodi cystadleuaeth leol. Edrych ar yr ystod o weithgareddau y maen nhw'n eu cyflawni a gweld cyfleoedd i weithio ynghyd a rhannu adnoddau.

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori â'r trigolion lleol. Oes ganddyn nhw unrhyw bryderon? Siaradwch â hwy i ddysgu am yr hyn y maen nhw ei eisiau a'i angen.

## (ii) A yw Cynigion y Grŵp Clwstwr yn Ymarferol?

Dylai'r Grŵp ganfod a yw ei gynigion allweddol sydd wedi'u creu i ddiwallu ei amcanion yn realistig a chyflawnadwy. I wneud hyn dylai'r grŵp:

- Gyflawni "astudiaeth dichonoldeb" byr a syml. Gall rhai grwpiau ystyried gofyn i ymgynghorwyr annibynnol gwblhau'r dasg hon ar gyfer y clwstwr, yn enwedig pan fo cynigion yn cynnwys ail-ffurfweddu gwasanaeth neu adeilad yn sylweddol. Mewn achosion eraill, gallai'r gwaith o ystyried y costau, manteision a sut y byddai'r trefniant yn gweithio mewn gwirionedd gael ei wneud gan y Grŵp.
- Ar ôl cyflawni'r astudiaeth dichonoldeb, gwerthuso'r canlyniadau a nodi unrhyw gryfderau a gwendidau yn y cynigion a diweddaru cynlluniau yn ôl yr angen.
- Asesu a yw'r lefelau angenrheidiol o adnoddau mewn lle.
- Llunio rhestr o ffynonellau cyllido posibl a ffurfio cynllun gweithredu ar ffyrdd pellach o gynhyrchu incwm.
- Creu cofrestr risg i fonitro meysydd ac agweddau o bryder ac amlygu pa gamau sy'n ofynnol i liniaru unrhyw effeithiau.

## (iii) Model

Penderfynu ar y model cywir y bydd y Grŵp Clwstwr yn ei fabwysiadu. Bydd hyn yn dibynnu'n helaeth ar y math o wasanaeth neu ased sy'n cael ei ystyried. Yn yr holl amgylchiadau, bydd angen i chi ystyried yn ofalus y lefel o adnoddau sy'n ofynnol i ddiwallu eich amcanion a faint o gyllid fydd ar gael.

Mae hefyd yn syniad da gwerthuso projectau tebyg mewn ardaloedd eraill, mynd allan a gweld y rhain ar waith a siarad â Rheolwyr / Aelodau Etholedig am eu profiad eu hunain o'r hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb weithio.

Ar ôl penderfynu ar drefniadau llywodraethu'r Grŵp Clwstwr, mae siart trefniadol yn ffordd gyffredin o ddangos strwythur y Grŵp a nodi'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau.

## (iv) Sefydlu Grŵp Llywio Project a Phenderfynu ar ei "Gylch Gorchwyl"

Os ydych yn gweithio fel clwstwr, fe'ch cynghorir i sefydlu Grŵp Llywio Project a gosod y Cylch Gorchwyl y bydd pob partner yn gweithio tuag ato a diffinio sut y bydd pob TCC yn ceisio cymeradwyaeth gan ei TCC ei hunan dros unrhyw benderfyniadau a wneir / sydd i'w gwneud.

Dylai'r berthynas rhwng unrhyw Grŵp Clwstwr a swyddogaethau ffurfiol y TCC fod yn amlwg i'r cyhoedd.

Dylid amlygu a yw unrhyw gyrff a sefydlir (h.y. Grŵp Llywio) yn is-bwyllgor o'r TCC. Dylid cytuno'r ffurfiol ar strwythur is-grŵp neu Grŵp Llywio a bydd Aelodaeth yn debygol o gynnwys cynrychiolwyr o'r holl gyrff partneriaeth, oni bai y cytunir ar drefniadau cynrychiolaeth ar y cyd eraill.

**(a) Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio:**

Ar gam cynnar, bydd yn bwysig cytuno ar "Gylch Gorchwyl" y Grŵp Llywio. Bydd hyn yn rhoi cyfarwyddyd i'r Grŵp Llywio drwy ddisgrifio ei ddiben a'i strwythur.

Dylai Cylch Gorchwyl y Grŵp Llywio gael ei gymeradwyo mewn cyfarfod ar gyfer pob un o'r TCCs yn y clwstwr a dylai sicrhau bod y TCCs yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Llywio.

**(b) Diben**

Diben y Grŵp Llywio yw dylunio, gweithredu a goruchwylio'r gwaith o greu'r Grŵp Clwstwr.

**(c) Egwyddorion y Grŵp Llywio**

Fel arfer bydd gan y Grŵp Llywio nifer o egwyddorion y bydd angen cydymffurfio â hwy, megis:

- Dylai'r Grŵp Llywio gyflawni'r broses mewn ffordd ddemocrataidd, ddidwyll a theg, gan ganiatáu i bawb roi safbwyntiau a syniadau.
- Bydd y Grŵp Llywio yn annog ac yn rhoi cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o'r Grŵp Llywio lunio'r broses e.e. trwy gymryd rhan yn y broses ymgynghori.
- Bydd y Grŵp Llywio yn sicrhau bod hon yn broses gadarnhaol ac adeiladol.
- Yn y pen draw y diben yw defnyddio dull cynhwysol a fydd yn gwella ansawdd bywyd a chryfhau'r gymuned.

**(ch) Aelodaeth o'r Grŵp Llywio**

Dylai pob TCC gael ei gynrychioli ar y Grŵp Llywio. Mewn esiamplau eraill o drefniadau o'r fath cafwyd tua 10 aelod ar y Grŵp Llywio. Gall grwpiau ystyried aelodaeth o du allan i'r partneriaid TCC hefyd, er enghraifft, y sector gwirfoddol, aelodau o'r gymuned neu fusnes lleol. Dylai unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu a ystyrir wastad gael ei ystyried wrth sefydlu aelodaeth Grŵp Llywio.

Bydd yn hanfodol wrth benderfynu a chofnodi'n ffurfiol y lleiafswm o ran aelodau lle nad yw cyfarfod y Grŵp Llywio yn gworwm.

**(d) Rolau yn y Grŵp Llywio**

Bydd gofyn i'r Grŵp Llywio ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd.

Os nad yw'r Cadeirydd na'r Is-gadeirydd yn gallu mynychu cyfarfod yna dylid ethol Cadeirydd dros dro (a ddewisir o blith aelodau'r Grŵp Llywio) ar gyfer y cyfarfod hwnnw.
Bydd yr Ysgrifennydd yn cymryd nodiadau / cofnodion yn y cyfarfod, cofnodi prif benderfyniadau a phwyntiau gweithredu ac yn sicrhau bod y rhain, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall ar gael i'r cyhoedd.

**(dd) Tasgau a Gweithgareddau'r Grŵp Llywio**

Bydd Grŵp Llywio fel arfer yn gwneud nifer o dasgau a gweithgareddau, bydd y rhain yn cynnwys:

- Gweithio gyda chyrff y bartneriaeth i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n llawn gydol y broses, a bod penderfyniadau priodol yn cael eu rhannu gyda hwy lle bo'n berthnasol;
- Sicrhau bod yna broses gyfathrebu glir sy'n caniatáu y cytunir ar yr holl benderfyniadau ar y cyd gan y Grŵp Llywio a'r TCCs;
- Cydgysylltu â thrigolion, partneriaid a rhanddeiliaid gydol datblygiad y Grŵp Clwstwr;
- Paratoi cynllun project sy'n nodi sut y bydd y Grŵp Clwstwr yn cael ei greu a'r gweithgareddau'n cael eu darparu;
- Ymgynghori mor eang a thrylwyr â phosibl i sicrhau bod y drafft a'r cynllun project terfynol yn cynrychioli safbwyntiau trigolion;
- Cyhoeddi bwriadau'r Grŵp Clwstwr gan hysbysu ac ymgysylltu â'r gymuned,
- Cyhoeddi'r holl weithgareddau a'r cynnydd dilynol;
- Cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn cytuno ar gamau gweithredu a thrafod materion sy'n codi a sicrhau bod y rhain yn cael eu delio â hwy mewn modd effeithlon ac amserol;
- Casglu gwybodaeth sylfaen a dadansoddi'r wybodaeth sydd ar gael;
- Sefydlu a deall anghenion trigolion a beth yw gweledigaethau neu ddyheadau'r Grŵp yn y tymor hir;
- Penderfynu ar ac, os oes angen, sefydlu is-grwpiau i gasglu ystadegau, gwybodaeth a safbwyntiau, a chytunir ar y rhain a'u dirprwyo gan y Grŵp Llywio llawn;
- Cynhyrchu nodiadau / cofnodion o gyfarfodydd y Grŵp Llywio a'u rhannu â holl aelodau'r Grŵp Llywio (ac eraill fel y cytunir sy'n briodol e.e. staff cymorth);
- Sefydlu dull i hysbysu trigolion â diddordeb o'r cynnydd e.e. diweddariadau misol dros e-bost. Annog trigolion i gofrestru;
- Cytuno ar drefniadau ariannol a chyllideb gydag aelod-Gynghorau.

## 7. Yw eich Achos Busnes yn ddigon cryf?

Rhowch achos busnes at ei gilydd i gofnodi'n ofalus ymarferoldeb a chynaliadwyedd ariannol y cynigion. Nid yw hyn o angenrheidrwydd mor gymhleth neu mor fanwl ag y mae'n swnio ac mae yna nifer o offer cynllunio busnes syml a hawdd eu defnyddio ar gael. Mae cyngor ar ddatblygu achosion busnes ar gael yng Nghanllaw Trosglwyddo Asedau Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg ac hefyd o'r GVS.

## 8. Cyllid

Bydd yn holl bwysig ystyried trefniadau ariannol clwstwr. Mae rhai o’r prif elfennau o ran cyllid fel a ganlyn:

- Cytuno ar sut y bydd y trefniant clystyru yn cael ei gyllido e.e. grant cyllid neu gyfraniadau gan aelodau’r Grŵp.
- Dylai Grŵp Clwstwr osod rhai targedau ariannol i helpu i asesu sefydlogrwydd ariannol y gwasanaeth, y project neu’r ased.
- Bydd disgwyl i glystyrau drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus os ydynt yn darparu gwasanaethau datganoledig.

Yn benodol bydd tair ystyriaeth gyllido bwysig:

Costau cyffredinol – wrth gynllunio neu geisio rhedeg gwasanaeth, bydd angen i TCCs gymryd adroddiad priodol o’r costau rheoli cyffredinol tebygol, yn ogystal â’r costau rhedeg. Bydd hyn yn cynnwys pethau fel costau gweinyddu ychwanegol, costau swyddfa ac yswiriant.

Costau unigol – dylai TCCs ystyried yn ofalus pa gostau unigol a allai fodoli a sut y byddant yn cael eu cyllido e.e. disodli offer, cynnal a chadw adeilad.

Treth ddwbl - weithiau gall cyllid gwasanaeth lleol trwy’r archebiant arwain at bryderon ynghylch "treth ddwbl”. Mae hyn yn digwydd os yw aelwydydd yn talu am y gwasanaeth yn eu hardal leol (trwy'r archebiant) ac yn talu tuag at yr un gwasanaeth rhywle arall trwy eu bil Treth Gyngor.

## 9. Fydd y Clwstwr yn Cynnig Gwir Fanteision i'r Gymuned?

Ni fydd asesu’r manteision i’r gymuned o angenrheidrwydd yn gymhleth, ond bydd angen meddwl a chynllunio'n ofalus. Y peth pwysig yw peidio â meddwl gormod am weithgareddau’r Grŵp ond canolbwyntio ar y canlyniadau. Er enghraifft, drwy redeg Caffi Cymunedol, gall canlyniad fod rhoi lle i bobl leol gymdeithasu. Y mathau hyn o ganlyniadau sydd angen eu mesur, ac mae ffyrdd o wneud hyn yn cynnwys:

- Ysgrifennu rhestr o ganlyniadau y bwriedir a rydd y clwstwr ar gyfer y gymuned.
- Nodi ffyrdd y gallwch fonitro hyn (er enghraifft, trwy arolygon o ddefnyddwyr gwasanaeth).
- Monitro a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd – asesu i ba raddau y mae gweithgareddau'r clwstwr wedi cyflawni yn erbyn y rhestr o fanteision cymunedol.
- Ailystyried neu adolygu eich rhestr o ganlyniadau bob blwyddyn.

- Cynhyrchu datganiad safle i ganiatáu i bobl leol weld a deall y manteision y mae'r Grŵp yn eu cynnig.
- Cynnal a chraffu'n ofalus sefyllfa ariannol y Grŵp Clwstwr ac ystyried a yw ei arian yn cael ei wario yn y meysydd cywir.

## 10. Y Capasiti i Ddiwallu Amcanion

Wrth sefydlu clwstwr, gallai fod yn syniad da i greu "tîm project" i fynd trwy amcanion y Grŵp i ddiwallu ei amcanion. Bydd denu'r bobl gywir â brwdfrydedd a ariennir ac ymrwymiad yn hanfodol. Dylai'r Grŵp sicrhau bod cyfle i bawb gyfrannu yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r tîm project. Mae'n arfer da cael cynrychiolaeth eang gyda gwahanol ddiddordebau ac arbenigaeth ac mae'n well cael gormod na dim digon o bobl. Mae 6 i 10 o bobl yn fan cychwyn da.

Bydd elfennau eraill yn cynnwys:

- Ethol arweinydd, rhywun sydd â'r cymhelliant a'r ymrwymiad ac sy'n gyfathrebwr da, gyda chysylltiadau da ac sy'n cael ei barchu.
- Sicrhau bod y Grŵp Clwstwr yn uwch-sgilio ei dîm project, yn ystyried y lefel o sgiliau cyffredinol sydd ar gael a nifer y bobl â'r wybodaeth arbenigol.
- Nodi cryfderau a gwendidau a gosod rolau a chyfrifoldebau clir
- Edrych am grwpiau / sefydliadau partner posibl i'ch helpu trwy'r broses hon a gweithredu fel "mentor".

## 11. Staffio ac Adnoddau Dynol

Un agwedd bwysig fydd i'ch Grŵp Clwstwr allu diwallu anghenion staff presennol a / neu newydd a gwirfoddolwyr.

Bydd y ffordd y mae'r Grŵp Clwstwr yn penderfynu sut i staffio'r ased neu'r gwasanaeth cymunedol yn holl bwysig. Efallai bydd angen i'r Grŵp gael cyflogeion a delir a gwirfoddolwyr. Os yw staff presennol Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu cyflogi yn yr adeilad neu'r gwasanaeth, yna mewn rhai amgylchiadau penodol gallai fod angen iddynt drosglwyddo'n awtomatig i'r cyflogwr newydd dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE).

Mae pethau eraill i'w hystyried o ran staffio yn cynnwys:

- Bod yn realistig o'ch cynlluniau staffio. Ystyried beth sydd ar gael ar hyn o bryd a'r lefel o adnoddau ariannol. Sicrhau nad yw cynlluniau yn rhoi pwysau diangen ar staff.
- Creu "Disgrifiadau Swydd" ac ystyried adolygu'r rhain yn rheolaidd.
- Datblygu polisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn, yn enwedig o ran yr angen i ofalu am les unrhyw wirfoddolwyr.
- Ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol yn ôl yr angen a phan ydych yn ansicr ynghylch rhywbeth.

## 12. Goblygiadau Cyfreithiol

Gallai fod goblygiadau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r hyn y mae eich clwstwr yn bwriadu ei wneud.

Y peth gorau i'w wneud yw cael cyngor cyfreithiol gan berson cymwys ar y cam cynharaf wrth ddatblygu'r Grŵp Clwstwr. Man cychwyn da yw LawWorks Cymru, sef project i alluogi sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru i elwa o gyngor cyfreithiol am ddim.

Ewch i: https://www.lawworks.org.uk/solicitors-and-volunteers/get-involved/lawworks-cymru

## 13. Lle gall TCCs fynd am Gymorth?

Un Llais Cymru (ULlC) – Efallai bydd TCCs sy'n aelodau o ULlC yn dymuno trafod unrhyw syniadau posibl a cheisio chanllawiau pellach ar y mater gan ULlC, a gellir cysylltu â hwy yn www.onevoicewales.org.uk.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod y gallai fod angen cymorth i sicrhau bod Grwpiau Clwstwr wedi'u sefydlu yn y ffordd gywir ac i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu mewn modd effeithiol. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn fodlon trafod cynnig cymorth i gynorthwyo gyda:

- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth
- Rhannu arfer da
- Hyrwyddo hyfforddiant a safonau o ansawdd
- Datblygu achosion busnes.

Gellir cysylltu â Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg yn https://www.gvs.wales.

## 14. Casgliad

Mae'r nodyn canllaw hwn yn ceisio rhestru rhai o'r problemau cyffredin, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli o ran clystyru, a all gynnig manteision cadarnhaol i'r cymunedau lleol drwy fynd i'r afael â phroblemau cyffredin.

Nid oes un model clystyru sydd wedi'i ganfod ac mae trefniadau lleol yn gyffredinol yn dibynnu ar y prif amcanion y sefydlwyd clwstwr ar ei gyfer. Yr elfen gyffredin yw i TCCs weithio'n agosach gyda'i gilydd weithiau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i gael pethau wedi'u gwneud yn effeithiol.

I gael cyngor neu ganllawiau pellach yn gysylltiedig â chynnwys y ddogfen hon, mae croeso i chi gysylltu â -

Mrs. K. Bowen
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu
Rhif ffôn: (01446) 709856
E-bost: kbowen@valeofglamorgan.gov.uk

**DS** Mae'r Canllaw hwn wedi'i baratoi yn dilyn trafodaethau gyda Chynghorau Tref a Chymuned y Fro, Un Llais Cymru a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg mewn Seminar Ail-siapio Gwasanaethau yn 2015 yn seiliedig ar arfer gorau.